



Adroddiad Cyfarfod

10:11:21

Llinos Angharad Owen

Croesawodd y Llywydd Anne Elis yr aelodau i'r cyfarfod nos Fercher Tachwedd 10fed yn y Neuadd Goffa am 7.30.

Anfonwyd ein cofion at Liz yr ysgrifennydd yn ei phrofedigaeth o golli cefnder yn ne Lloegr. Croesawyd Nora a Dilys yn ol atom yn dilyn gwaeledd. Dymunwyd yn dda hefyd i Wil sydd wedi gwella a dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio fod Alys yn dal i wella ac y gwelwn hi yn ôl yn fuan. Llongyfarchwyd Lynwen ac Idwal ar ddathlu priodas aur yn ddiweddar.

Yn y cyfarfod Rhanbarth diwethaf diolchwyd i Gwyneth am ei gwaith fel Llywydd. Mae swyddogion y pwyllgor anabl wedi rhoi gorau i'w swyddi ac ar hyn o bryd ni fydd swyddogion newydd yn cael eu dewis. Trosglwyddwyd £800 a gasglwyd yn dilyn apel y pwyllgor i uned babanod a phlant anabl Ysbyty Gwynedd.

Mae'r pwyllgor wedi trefnu noson zoom i'r holl aelodau efo Olwen Rhys a Rhian Williams yn son am y teithiau cerdded maent wedi eu trefnu i Ranbarth Dwyfor ers blynyddoedd. Cynhelir y noson nos Iau Tachwedd 18fed am 7.00.

Bydd y gangen yn rhoi torch wrth y gofeb eto eleni.

Bydd y cinio Dolig yn 'Perthyn' nos Fercher Rhagfyr 8fed, pawb i gyrraedd ar ol 7.00 fel ein bod yn bwyta am 7.30.

Cyhoeddwyd fod Bro360 yn lansio llyfr newydd Bro Ni yn y Galeri o 6.00 ymlaen ar y 19 Tachwedd croeso i bawb.

Pleser mawr oedd croesawu ein gwraig wadd atom sef Llinos Angharad Owen. Hogan o Fethel ydi Llinos wedi cael ei haddysg yn ysgol Bethel ac Yagol Brynrefail. Graddiaodd mewn cyfathrebu a'r cyfryngau ym Mangor ac yna aeth yn ôl i'r coleg i wneud cwrs ymarfer dysgu. Bu'n athrawes yn ysgol Dyffryn Nantlle am 20 mlynedd cyn roi'r gorau i'w swydd i ddilyn ei diddordebau eraill. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf daeth ar draws tudalen Merched y Wawr – Curo'r Corona'n Coginio gan ddechrau dangos ei gwaith o goginio bob maeth o ddanteithion. Cafodd sylwadau positif iawn. Roedd gan Llinos ddiddordeb mewn coginio ers yn ifanc iawn dan ddylanwad ei mam Lynwen a'i nain. Yn dilyn y sylwadau positif a dderbyniodd cwblhaodd

ffurflen gais ar gyfer y gyfres 'Great British Bake Off' Yn dilyn cyfweiliadau llwyddodd i ddod lawr i'r 100 ymgeisydd olaf allan o 34,000 o ymgeiswyr.

Trefnodd Llinos noson hwyliog iawn ar ein cyfer gyd 6 aelod wedi derbyn yr her i addurno dwy gacen fach a Llinos ac Anne yn cael y ffrainc o feirniadu. Diolch i Rita Williams, Mary Evans, Mary Jones, Eirlys Williams, Rhian Hughes a Mair Read am fod mor barod i gymryd rhan. Mair Read gafodd y 'Star Baker' a Mary Jones gafodd yr 'ysgwyd llaw' am blesio'r beirniaid. Roedd Llinos wedi gwneud bisgedi oren a siocled i bob aelod i'w gael efo paned – blasus iawn.

Nid oedd Llinos eisiau tâl am ddod atom ond rhoddodd y gangen rodd tuag at elusen Tir Dewi sy'n agos at galon Llinos. Mae erthygl gan Llinos yn rhifyn Gaeaf o gylchgrawn Y Wawr.

Rhoddwyd y raffl gan Eryl ac ennillwyd y raffl gan Mary Jones.